

# Eleanor – Storïwr pwerus yn codi ei llais

Ar ôl gweithio yn y Coleg Addysg Bellach lleol am 13 mlynedd ac mewn theatr gymunedol leol am yr 20 mlynedd diwethaf, roedd Eleanor Shaw yn chwilio am ddulliau newydd o wydnwch cymunedol a grymuso personol.

Roedd hyn yn arbennig o wir yn 2017 pan oedd Eleanor yn profi ei thaith iechyd meddwl a lles bersonol ei hun. O ganlyniad, cychwynnodd Eleanor ar daith adrodd straeon hunangofiannol lle bu iddi ganfod y grym o weithio gyda straeon, gan ei helpu i ddeall ei stori ei hun a grym y broses. Yna dechreuodd rannu gyda'i chymuned.

Daeth Eleanor â'i rhwydweithiau ynghyd yn ogystal â chyd-weithwyr celfyddydau cymunedol a chreodd dîm o ymarferwyr a graddedigion cymhwysol ac angerddol a fyddai'n gweithio gyda phobl trwy naratifau. Cefnogwyd hi gan Fusnes Cymdeithasol Cymru ac UNLTD. Rhoi pobl ar flaen y gad yn eu taith iechyd a lles bersonol eu hunain oedd ethos creu gofod i bobl ddod o hyd i'w llais ac amser i bobl godi eu llais a gwrando!

Ac felly y ganwyd People Speak Up.

Mae People Speak Up yn cysylltu pobl, yn eu helpu i ddod o hyd i'w llais, ac yn creu cymunedau iachach a gwydn trwy adrodd straeon, gair llafar, ysgrifennu creadigol, gweithgareddau ar sail sgyrsiau, celfyddydau cyfranogol, gwirfoddoli a hyfforddiant.

> ***Mae People Speak Up yn cysylltu pobl, yn eu helpu i ddod o hyd i'w llais, ac yn creu cymunedau iachach a gwydn.***

Bellach yn elusen gofrestredig, mae wedi cymryd drosodd y Ffwrnes Fach, Capel Seion wedi'i drawsnewid, a'i droi'n Hwb Celfyddydau, Iechyd a Llesiant yng nghanol tref Llanelli. Mae rhaglen reolaidd o weithgareddau yn yr adeilad ac maent yn mynd â'u gwaith ar draws De Cymru i gartrefi, cartrefi gofal, yn yr awyr agored ac ar-lein, gan gefnogi dros 2,000 o unigolion yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae'r gwasanaethau'n rhad ac am ddim i'w defnyddio. Mae People Speak Up yn cael ei gomisiynu'n rheolaidd gan fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol ac mae newydd ddod yn rhan o bortffolio Cyngor Celfyddydau Cymru.

Mae ein tîm o hwyluswyr creadigol, ynghyd â storïwyr gwadd, cerddorion, awduron ac artistiaid gweledol, yn cyflwyno rhaglen o weithgareddau sydd wedi'u cynllunio gyda, ac o amgylch, anghenion ein cymuned leol a'r cyffiniau. Mae croeso i bawb gymryd rhan ac maent yn gweithio'n agos gyda phartneriaid i nodi pobl a fyddai'n elwa o atgyfeiriad a gwasanaethau.

Mae People Speak Up wedi dod yn achubiaeth, gan weithio gyda phobl a'u teuluoedd sy'n byw gyda, neu sydd wedi cael eu heffeithio gan ganser, dementia, unigrwydd, ynysigrwydd, gorbryder, materion iechyd meddwl ac allgáu cymdeithasol.

Ffilm fer am bwy ydyn ni a'r hyn rydyn ni'n ei wneud: https://bit.ly/AboutPSU

PSU PEOPLE SPEAK UP